Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Comisiwn y Cynulliad

Lleoliad:
**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Ty Hywel**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 22 Medi 2011**

Amser:
**11:00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

**Helen Finlayson, 029 2089 8705**
Ysgrifenyddiaeth

## Agenda
AC(4)2011(4)

## 1. Cyflwyniad

**Cyflwyniad ac ymddiheuriadau**

**Datganiadau o fuddiant**

**Cofnodion y cyfarfod 14 Gorffennaf 2011** (Tudalennau 1 - 5)

## 2. Cyllideb ddrafft 2012-13 (Tudalennau 6 - 29)

## 3. Rhaglen dreigl Comisiwn y Cynulliad (Tudalennau 30 - 32)

## 4. Unrhyw Fusnes Arall

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Comisiwn y Cynulliad
## Assembly Commission

**NAFWC 2011**
**Cofnodion cyfarfod 14 Gorffennaf 2011**

**Dyddiad:** 14 Gorffennaf 2011
**Amser:** 12.00
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B

# Cofnodion cyfarfod 14 Gorffennaf 2011

**Yn bresennol:**
Y Llywydd, Cadeirydd
Peter Black AC
Angela Burns AC
Sandy Mewies AC
Rhodri Glyn Thomas AC

**Swyddogion yn bresennol:**
Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc
Dianne Bevan, Prif Swyddog Gweithredu
Keith Bush, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Craig Stephenson, Pennaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau
Helen Finlayson, Ysgrifenyddiaeth
Steven O'Donoghue, Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad – eitemau 2 a 3
Non Gwilym, Pennaeth Cyfathrebu – eitem 4

**Cynghorydd Annibynnol:**
Mair Barnes

**Eraill:**
David Melding AC, y Dirprwy Lywydd

**Cofnodion cyfarfod 14 Gorffennaf 2011**

**1. Cyflwyniad y Cadeirydd**
Diolchodd y Llywydd i staff y Cynulliad, ac yn arbennig i Claire Clancy, Keith Bush ac Adrian Crompton, am y cymorth a'r cyngor a roddwyd o ran ethol dau unigolyn i'r Cynulliad ar ôl cael eu gwahardd. Roedd y Comisiwn yn ddiolchgar am gymorth y swyddogion wrth alluogi sefyllfa gymhleth ac unigryw i gael ei datrys mor gyflym â phosibl, drwy broses deg a chadarn yn gyfreithiol.

Nododd y Llywydd fod y trefniadau newydd ar gyfer ateb Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Comisiwn wedi bod yn ddidrafferth ar 6 Gorffennaf, a bod yr atborth gan yr Aelodau wedi bod yn gadarnhaol.

Cytunodd y Pwyllgor y byddai taflenni briffio i'r Aelodau yn cael eu dosbarthu ar ôl cyfarfodydd yn y dyfodol.

**Ymddiheuriadau**
Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**Datgan buddiannau**
Ni chafodd unrhyw fuddiannau eu datgan.

**Cofnodion y cyfarfod ar 29 Mehefin 2011**
Cytunwyd yn ffurfiol ar y cofnodion.

**Materion yn codi o'r cyfarfod ar 29 Mehefin 2011**
Nid oedd dim materion yn codi.

**2. Strategaeth ddrafft ddiwygiedig y Comisiwn 2011-16**
Roedd y strategaeth ddrafft ar gyfer 2011-16 wedi cael ei diweddaru i adlewyrchu sylwadau gan y Comisiynwyr am eu blaenoriaethau a'u dyheadau ar gyfer y sefydliad.

Cytunwyd ar y datganiad draft diwygiedig o ddibenion ac amcanion strategol, yn amodol ar rai mân ddiwygiadau y gwnaeth y Comisiynwyr gais amdanynt er mwyn symleiddio geiriad y strategaeth.

**3. Strategaeth cyllideb ddrafft y Comisiwn**
Trafododd y Comisiynydd y gwasanaethau y bydd eu hangen ar y Cynulliad fel deddfwrfa sydd â phwerau deddfu llawn yn dilyn y refferendwm. Cytunwyd bod angen i'r Cynulliad, fel sefydliad sy'n tyfu, gael safon uchel o wasanaethau cymorth a gaiff eu cefnogi gan adnoddau priodol er mwyn galluogi'r Aelodau i ymgymryd â'u

swyddogaethau. Cafwyd atborth ar effaith y gostyngiadau yn y Gwasanaeth Ymchwil ar yr Aelodau.

Trafodwyd blaenoriaethau'r Comisiynwyr ar gyfer cyflenwi gwasanaethau craidd, gan gynnwys cymorth arbenigol penodol ar gyfer pwyllgorau'r Cynulliad, Gwasanaeth Ymchwil cryf, gwasanaethau cyfreithiol ac adnodd TGCh arbenigol ar gyfer datblygu'r strategaeth TGCh. Cafwyd cyflwyniad i'r ffordd gyffredinol o ystyried strategaeth y gyllideb ar gyfer 2011-16, ac ar y lefel ddewisol o gydbwysedd rhwng gwelliannau / twf a chostau. Barn y Comisiynwyr oedd ei bod yn bwysig cyflwyno cyfanswm hyd a lled Gwasanaethau'r Cynulliad a Chyllideb yr Aelodau gyda'i gilydd.

Byddai cynigion cyllideb manwl, yn tynnu sylw at lle gellir gwneud arbedion, a'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer pob gwasanaeth, a strategaethau cyfathrebu drafft yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

**Camau gweithredu:** Swyddogion i wneud gwaith manwl dros yr haf, gan weithio gyda deiliaid portffolios, i'w hystyried gan y Comisiwn ym mis Medi.

**4. Gwasanaethau dwyieithog**

Cafodd y Cofnod o Drafodion y Cyfarfod Llawn ei drafod, gan ystyried adroddiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg, sylwadau a gyflwynwyd gan Aelodau a rhanddeiliaid, yr egwyddor o allu cael gafael ar drafodion y Cynulliad yn Gymraeg neu yn Saesneg a'r angen i sicrhau gwerth am arian. Cytunodd y Comisiwn y dylid parhau â'r ymchwiliadau i ddarparu cofnodion dwyieithog, a gwnaeth gais am fwy o wybodaeth fanwl ynghylch cyfanswm y costau tebygol, gan gynnwys strwythur talu Google Translate o fis Rhagfyr 2011 ymlaen. Dywedwyd bod angen i unrhyw drefniant fod yn gynaliadwy, ond y byddai, mewn egwyddor, am ddarparu Cofnod o'r Trafodion yn hollol ddwyieithog pe bai'n bosibl canfod ateb hirdymor. Yn y cyfamser, byddai'r trefniadau presennol yn parhau. Byddai'r Llywydd yn ysgrifennu at Fwrdd yr Iaith Gymraeg i gadarnhau hyn.

Yn amodol ar ddiwygiadau i adlewyrchu'r penderfyniadau hyn, cytunwyd ar Fil (Drafft) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol), y Cynllun Ieithoedd Swyddogol drafft ac amserlen yr ymgynghoriad. Gwnaeth y Comisiynwyr gais y byddai'r ymgynghoriad

cyhoeddus yn cynnwys rhanddeiliaid o bob rhan o Gymru, gan gynnwys awdurdodau lleol.

**Camau gweithredu:** Swyddogion i ddarparu manylion pellach am gostau defnyddio Google Translate o fis Rhagfyr 2011 ymlaen.

Y Llywydd i ymateb i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar ran Comisiwn y Cynulliad.

**5. System rheoli achos**

Darparwyd gwybodaeth am y nifer o Aelodau sy'n defnyddio'r system; costau'r system hyd yn hyn; goblygiadau o ran adnoddau, costau a diogelu data wrth i staff y Comisiwn wneud cais am ddata oddi ar y gofrestr etholiadol, a chael gafael ar y wybodaeth honno; a'r peryglon y gallai'r data gael ei ddefnyddio at ddibenion gwleidyddiaeth bleidiol.

Mynegwyd pryderon am gostau'r prosiect hyd yn hyn, a chafwyd cais i wneud gwaith mwy manwl ar brosiectau tebyg yn y dyfodol i ganfod anghenion defnyddwyr, amcangyfrif y nifer a sicrhau bod amcangyfrifon costau yn gadarn.

Cytunodd y Comisiwn i wneud cais i'r Comisiwn ddod yn gorff a enwir o fewn Rholiadau Cynrychioli'r Bobl (Cymru a Lloegr) 2001.

**Camau gweithredu:** Keith Bush i wneud cais i newid Rheoliadau Cynrychioli'r Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 i gynnwys Comisiwn y Cynulliad fel corff a enwir.

**6. Penderfyniad ac adroddiad y Bwrdd Taliadau**

Gwnaeth y Bwrdd Taliadau ei Benderfyniad cyntaf ym mis Mawrth 2011, ond ni allai, ar y pryd, wneud penderfyniadau terfynol o ran y cyflogau ychwanegol i rai deiliaid swyddi yn y Cynulliad. Roedd y Penderfyniad wedi cael ei ddiweddaru bellach i adlewyrchu penderfyniadau am gyflogau ychwanegol sy'n daladwy i Gomisiynwyr, arweinwyr pleidiau, cadeiryddion pwyllgorau a rheolwyr busnes, a chafodd ei dderbyn yn ffurfiol yng nghyfarfod y Comisiwn. Mynegodd y Comisiynwyr y farn nad oedd y trefniadau cyflogau ychwanegol ar gyfer rheolwyr busnes y pleidiau yn adlewyrchiad digonol o'r gwahaniaethau yn nifer y seddi sydd gan bob plaid.

Roedd materion wedi cael eu codi gyda'r Llywydd a Chomisiynwyr eraill ynghylch y terfyn misol ar rentu llety a'r meini prawf ar gyfer pellter o ran cymhwysedd i hawlio cymorth llety yn seiliedig ar yr

etholaeth neu'r rhanbarth a gaiff ei chynrychioli gan yr Aelod. Cytunodd y Comisiwn y byddai'r Llywydd yn ysgrifennu at Gadeirydd y Bwrdd Taliadau.

**Camau gweithredu:** Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu gosod y Penderfyniad a'r adroddiad, a chyfathrebu dogfennau i Aelodau'r Cynulliad a'u staff.

Y Llywydd i ysgrifennu at Gadeirydd y Bwrdd Taliadau yn nodi pryderon yr Aelodau am y cyfyngiadau ar gymhwysedd i hawlio cymorth mewn cysylltiad â llety.

**7. Adroddiad blynyddol Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad**
Nodwyd yr adroddiad blynyddol.

**8. Amserlen contractau**
Nodwyd amserlen y contractau. Gofynnodd y Comisiynwyr am ddiweddaru'r amserlen i adlewyrchu dyfarnu'r contract arlwyo.

**9. Rhaglen dreigl Comisiwn y Cynulliad**
Nodwyd y rhaglen dreigl.

**10. Unrhyw fusnes arall**
Nid oedd dim busnes arall.

## Comisiwn y Cynulliad
## Assembly Commission

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**NAFWC 2011 (Papur 2 Rhan 1)**
**Cyllideb ddrafft 2012-13**

**Dyddiad:** 22 Medi 2011
**Amser:** 11.00-12.30
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B
**Enw a rhif cyswllt yr awdur:** Claire Clancy, estyniad 8233

# Cyllideb ddrafft 2012-13

### 1.0 Diben a chrynodeb o'r materion

1.1 Cymeradwyo dogfen cyllideb ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2012-13, y bwriadwn ei gosod ar 29 Medi. Mae dogfen y gyllideb ddrafft arfaethedig yn amgaeedig (Atodiad A).

### 2.0 Argymhellion

2.1 Bod y Comisiwn yn cytuno ar ei Gyllideb ddrafft ar gyfer 2012-13, a chyllidebau dangosol ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol, fel y nodir yn Atodiad A.

### 3.0 Trafodaeth

3.1 Cytunodd y Comisiwn ar strategaeth ei gyllideb ar gyfer 2012-13 a'r Pedwerydd Cynulliad pan gyfarfu ar 29 Mehefin a 14 Gorffennaf. Cytunwyd:

- y dylai'r gyllideb gynnwys digon o adnoddau i ganiatáu i'r Comisiwn ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y Cynulliad fel deddfwrfa sydd â phwerau deddfu llawn yn dilyn y refferedwm;
- bod angen safon uchel o wasanaethau cymorth ar y Cynulliad, fel sefydliad sy'n tyfu, gydag adnoddau priodol ar gyfer y gwasanaethau hynny, er mwyn galluogi'r Aelodau i wneud eu gwaith; ac

- y byddai'n hanfodol parhau i sicrhau effeithlonrwydd a gwerth am arian.

3.2 Mae dogfen y gyllideb ddrafft yn seiliedig ar y cyfarwyddyd a bennodd y Comisiwn. Penderfynwyd ar y cyllid ar gyfer y blaenoriaethau hyn drwy gyfuniad o arbedion, ailddosbarthu'r adnoddau presennol a thwf yn y gyllideb a gaiff ei gyflwyno dros y ddwy flynedd nesaf. Credwn y bydd y cyfuniad hwn yn helpu i ddangos defnydd priodol o arian cyhoeddus, mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol parhaus ar wasanaethau cyhoeddus. Bydd hefyd yn ein galluogi i wneud y buddsoddiadau newydd angenrheidiol yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, ac a fydd yn cadarnhau'r Cynulliad fel deddfwrfa a senedd gref yn ddigamsyniol. Canlyniad hyn yw cyllideb o £47.7 miliwn, sef cynnydd o 6.6 y cant o gymharu â 2011-12 (gyda 5.1 y cant ei angen i dalu costau ychwanegol anochel). O fewn cyfanswm y gyllideb, bydd £13.5 miliwn yn mynd tuag at dalu cyflogau a lwfansau'r Aelodau a'u staff a bydd y £34.2 miliwn sy'n weddill yn mynd tuag at gostau gwasanaethau a gaiff eu darparu gan Gomisiwn y Cynulliad i gefnogi gwaith yr Aelodau.

3.3 Mae arddull dogfen y gyllideb ddrafft yn wahanol i'r rhai a baratowyd yn ystod y Trydydd Cynulliad. Y nod y tro hwn yw ceisio cyfleu gweledigaeth y Comisiwn ar gyfer Gwasanaethau'r Cynulliad a nodi'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r weledigaeth honno yn gyffredinol, ond yn llai manwl nag yn y gorffennol.

3.4 Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, rhaid gosod y Gyllideb Ddrafft erbyn 1 Hydref (Rheol Sefydlog Rhif 21.13). Bydd y Pwyllgor Cyllid yn craffu arni ar 6 Hydref.

Barnwyd nad yw r papur hwn yn addas i w gyhoeddi yn unol ârheolau r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Comisiwn y Cynulliad
# Assembly Commission

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**AC(4)2011(4) (Papur 3)**
**Rhaglen dreigl Comisiwn y Cynulliad**

**Dyddiad:** Dydd Iau 22 Medi 2011
**Amser:** 11.00-12.30
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B
**Enw a rhif cyswllt yr awdur:** Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor, estyniad 8705

## Rhaglen dreigl Comisiwn y Cynulliad

| Dyddiad y cyfarfod | Eitem ar yr Agenda | Deiliad y portffolio / swyddog arwain |
|---|---|---|
| **20 Hydref 11** | Adolygiad chwe misol o fuddiannau ac arbedion UNO | Peter Black/Dianne Bevan |
| | Gwasanaethau dwyieithog | Rhodri Glyn Thomas/Non Gwilym |
| | Gwella cymorth mynediad i Aelodau'r Cynulliad | Sandy Mewies/Steve O'Donoghue |
| | Y wybodaeth ddiweddaraf gan y deiliaid portffolio | Deiliaid portffolio |
| | Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn | Claire Clancy |
| | Rhaglen dreigl | Yr Ysgrifenyddiaeth |
| **24 Tachwedd 11** | Gwasanaethau dwyieithog | Rhodri Glyn Thomas/Non Gwilym |
| | Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar gyllideb ddrafft y Comisiwn | Angela Burns/Steve O'Donoghue |
| | Adroddiad blynyddol ar y strategaeth rheoli carbon | Peter Black/Connie Cockburn |
| | Opsiynau ar gyfer gwasanaethau TGCh ar ôl 2014 | Peter Black/Connie Cockburn |
| | Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn | Claire Clancy |
| | Rhaglen dreigl | Yr Ysgrifenyddiaeth |
| **2 Chwefror 12** | Taliadau staff y Cynulliad? | Peter Black/Steve O'Donoghue |
| | Cynllun cydraddoldeb 2012-16 | Sandy Mewies/Steve O'Donoghue |

AC(4)2011(4) (Paper 3)
**Rhaglen dreigl Comisiwn y Cynulliad**

| Dyddiad y cyfarfod | Eitem ar yr agenda | Deiliad y portfolio / swyddog arwain |
|---|---|---|
| | Adolygiad o’r prosesau Rhyddid Gwybodaeth? | Sandy Mewies/Non Gwilym |
| | Adolygiad o effeithiolrwydd y Comisiwn | Y Llywydd/Ian Summers |
| | Caffael a rheoli contractau | Sandy Mewies/John Grimes |
| | Strategaeth TGCh? | Peter Balck/Connie Cockburn |
| | Y wybodaeth ddiweddaraf gan y deiliaid portffolio | Deiliaid portffolio |
| | Adroddiad y Bwrdd Rheoli i’r Comisiwn | Claire Clancy |
| | Rhaglen dreigl | Yr Ysgrifenyddiaeth |
| **8 Mawrth 12** | Taliadau staff y Cynulliad? | Peter Black/Steve O’Donoghue |
| | Adolygiad chwe misol o fuddiannau ac arbedion UNO | Peter Black/Connie Cockburn |
| | Strategaeth TGCh? | Peter Black/Connie Cockburn |
| | Fframwaith ar gyfer yr adroddiad blynyddol a’r cyfrifon 2011-12 | Angela Burns/Rhodri Glyn Thomas/Non Gwilym/Steve O’Donoghue |
| | Adroddiad y Bwrdd Rheoli i’r Comisiwn | Claire Clancy |
| | Rhaglen dreigl | Yr Ysgrifenyddiaeth |
| **Mai 12** | Strategaeth y gyllideb ddrafft 2013-14 | Angela Burns/Steve O’Donoghue |
| | Adolygiad o effeithiolrwydd Comisiwn y Cynulliad | Y Llywydd/Claire Clancy |
| | Y wybodaeth ddiweddaraf gan y deiliaid portffolio | Deiliaid portffolio |
| | Adroddiad y Bwrdd Rheoli i’r Comisiwn | Claire Clancy |
| | Rhaglen dreigl | Yr Ysgrifenyddiaeth |
| **Gorffennaf 12** | Cymeradwyo’r adroddiad blynyddol a’r cyfrifon ar gyfer 2011-12 | Y Llywydd/Claire Clancy |
| | Strategaeth y gyllideb ddrafft 2013-14 | Angela Burns/Steve O’Donoghue |

| | | |
|---|---|---|
| | Adroddiad y Bwrdd Rheoli i'r Comisiwn | Claire Clancy |
| | Rhaglen dreigl | Yr Ysgrifenyddiaeth |